



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

Cylchlythyr

Rhif y Cylchlythyr:	WGC 003/2018	Dyddiad cyhoeddi:	27 / 03M / 2018
Statws:	Er gwybodaeth		
Teitl:	Adroddiad Interim o Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân, Building a Safer Future		
Cyhoeddwyd gan:			
Francois Samuel: Pennaeth Rheoliadau Adeiladu			
Cyfeiriwyd at:	Anfonwch ymlaen at:		
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Cymdeithas Arolygwyr Cymeradwy Corfforaethol Cyngor y Diwydiant Adeiladu Fforwm Personau Cymwys	Swyddogion Rheoli Adeiladu'r Awdurdodau Lleol Aelodau Cynulliad Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru		
Crynodeb:			
Darparu gwybodaeth am argymhellion Adroddiad Interim Rheoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad rhwng y cyrff Rheoli Adeiladu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.			
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:			
Colin Blick - Rheoliadau Adeiladu Swyddfeydd Llywodraeth Cymru Merthyr Tudful CF48 1UZ	Llinell Uniongyrchol: 03000 628144 E-bost: enquiries.brconstruction@Gov.Wales Gwefan: http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/?skip=1&lang=cy		

Annwyl Syr / Madam

Adroddiad Dros Dro Y Fonesig Judith Hackitt ar Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân, Building a Safer Future

Cafodd Adroddiad Interim Judith Hackitt, *Building a Safer Future*, ei gyhoeddi ar 18 Rhagfyr 2017.

Roedd yr Adroddiad Interim yn cynnwys nifer o argymhellion i Lywodraeth y DU a'r diwydiant weithredu arnynt nawr i helpu i ddarparu adeiladau mwy diogel. Mae Gweinidogion Cymru wedi cefnogi'r adolygiad annibynnol fel archwiliad ac argymhellion sydd yr un mor berthnasol i Gymru, yn rhannol am fod y system reoliadau a rheoli adeiladau yn parhau'n seiliedig ar yr hyn sy'n cael ei weithredu yn Lloegr ar y cyfan. Rwyf felly'n ysgrifennu atoch i dynnu eich sylw at y prif argymhellion sy'n gysylltiedig â chyrrff rheoli adeiladu ac awdurdodau tân ac achub.

Cwmpas y Cylchlythyr hwn

Mae'r canllaw yn y Cylchlythyr hwn yn berthnasol i adeiladau a gwaith adeiladu yng Nghymru, ond nid adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru.¹

Dogfennau

Mae testun llawn yr Adroddiad Interim ar gael ar:

<https://www.gov.uk/government/publications/independent-review-of-building-regulations-and-fire-safety-interim-report>

Mae canllawiau gweithdrefnol ar gyfer gweithdrefnau ymgynghori rhwng Cyrff Rheoli Adeiladu ac Awdurdodau Tân ac Achub, *Building Regulations and Fire Safety Procedural Guidance*, i'w cael ar: <https://www.labc.co.uk/guidance/resource-library/technical-guide-building-regulations-fire-safety-procedural-guidance>

Argymhellion Interim ar gyfer y System Rheoli Adeiladu

Mae'r argymhellion sy'n berthnasol i'r system rheoli adeiladu, fel a fynegwyd gan Y Fonesig Judith yn ei Hadroddiad Interim, fel a ganlyn:

- Dylai'r broses ymgynghori gan **gyrff rheoli adeiladu** a gan **y rhai hynny sy'n comisiynu neu yn cynllunio adeiladau** ddigwydd yn gynnar yn y broses a dylid ystyried cyngor y gwasanaeth tân ac achub yn llawn. Y nod ddylai sicrhau bod eu mewnbwn a'u cefnogaeth hwy yn dod i law cyn gynted â phosib fel bod modd cynnwys diogelwch tân yn y cynllun.
- Mae angen i **gyrff rheoli adeiladu** wneud mwy i sicrhau bod yr wybodaeth ar ddiogelwch tân mewn adeilad yn cael ei ddarparu gan y person sy'n gwneud y gwaith adeiladu i'r person sy'n gyfrifol am yr adeilad pan fydd y preswylwyr wedi symud i mewn. O ystyried pwysigrwydd gwybodaeth o'r fath ar gyfer cynnal a chadw ac asesiadau risgiau tân, dylid derbyn tystiolaeth bod yr wybodaeth wedi ei throsglwyddo.
- Mae angen i **ddatblygwyr adeiladu** sicrhau bod adolygiad a phroses drosglwyddo ffurfiol wedi'i gynnal cyn i breswylwyr symud i mewn i unrhyw ran o adeilad preswyl

¹ Mae "adeiladau ynni a eithrir" wedi eu diffinio yn yr atodlen i Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019)

uchel. Er bod rhesymau dilys dros ganiatáu i breswylwyr symud i mewn yn raddol, mae'r arferiad o ganiatáu hyn heb adolygiad a throsglwyddiad iawn yn gosod rhwystrau i weithredu unrhyw un o'r mesurau diwygio a nodir fel rhan o'r broses o gwblhau'r adolygiad.

Er mai y person sy'n cyflawni'r gwaith sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r gofynion yn y Rheoliadau Adeiladu, yn dilyn argymhellion Y Fonesig Judith, mae Gweinidogion Cymru yn awyddus i gefnogi cyrff rheoli i gyflawni eu swyddogaethau statudol o ymgynghori gyda'r awdurdodau tân ac achub a sicrhau bod yr wybodaeth am ddiogelwch tân yn cael ei drosglwyddo. Mae'r rhain yn ofynion hanfodol ar gyfer darparu adeiladau diogel o fewn y fframwaith rheoleiddiol cyfredol.

Gofynion Cyfreithiol

Mae gan y rhai hynny sy'n cynnal gwaith adeiladu, cyrff rheoli adeiladu a'r awdurdodau tân ac achub amrywiol ddyletswyddau statudol o dan:

- Ddeddf Adeiladu 1984;
- Rheoliadau Adeiladu 2010;
- Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc); 2010; a
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (y 'Gorchymyn Diogelwch Tân').

Ar gyfer cyrff rheoli adeiladu, mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau i ymgynghori â'r awdurdodau tân ac achub. Er bod y gofynion ar gyfer ymgynghori yn amrywio rhwng awdurdodau â'r arolygwyr cymeradwy, mae'r bwriad yr un fath a dylai gael yr un effaith yn ymarferol.

Ymgynghori gyda'r Awdurdod Tân ac Achub

Mae angen ymgynghori â'r awdurdodau tân ac achub² ar gynlluniau i godi neu ymestyn, gwneud newidiadau strwythurol, neu newid defnydd perthnasol, adeiladau sy'n cael eu cynnwys o fewn y Gorchymyn Diogelwch Tân. Prif bwrpas yr ymgynghoriad hwn yw lleihau'r risg y gellid bod angen mesurau diogelwch tân ychwanegol ac/neu y byddai angen cymryd camau gorfodi gan yr awdurdod tân ac achub wedi cwblhau'r gwaith adeiladu ac i'r preswylwyr symud i mewn, neu yn dilyn newid defnydd.

Dylid cynnal ymgynghoriad gyda'r awdurdodau tân ac achub cyn gynted â phosibl. Yn benodol, byddai yr awdurdodau lleol angen barn yr awdurdod tân ac achub cyn cymeradwyo cais cynllunio llawn o dan adran 16 y Ddeddf Adeiladu a'r arolygwyr cymeradwy cyn rhoi tystysgrif cynlluniau o dan adran 50 y ddeddf honno.

Pan fydd cyrff rheoli adeiladu yn ymgynghori â'r awdurdodau tân ac achub ynghylch cynlluniau, mae'r *Canllawiau Gweithdrefnol* yn nodi'n glir y dylai'r awdurdodau tân ac achub ateb yn ysgrifenedig o fewn yr amserlen y cytunwyd arni (15 diwrnod gwaith fel arfer)³. Mae gan adrannau rheoli adeiladu yr awdurdodau lleol ofyniad statudol i gymeradwyo neu wrthod cynlluniau o fewn deufis. Ni chaiff arolygwyr cymeradwy roi tystysgrif cynlluniau na thystysgrif terfynol tan i 15 niwrnod fynd heibio o'r dyddiad y bu iddynt ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub.⁴

²Ar gyfer awdurdodau lleol, erthygl 45 y Gorchymyn Diogelwch Tân 2005; ar gyfer arolygwyr cymeradwy, rheoliad 12 y Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc) 2010

³*Rheoliadau Adeiladu a Chanllawiau Gweithredol Diogelwch Tân*, paragraff 2.16

⁴Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.), rheoliad 12(4)(b).

Dylai'r corff rheoli adeiladu ystyried yn llawn y sylwadau a wnaethpwyd gan yr awdurdod tân ac achub sy'n berthnasol i gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu. Yn unol â'r argymhelliad yn yr Adroddiad Interim, gallai'r sylwadau sydd ddim yn uniongyrchol berthnasol i gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu ond a allai helpu'r person cyfrifol i gydymffurfio â darpariaethau'r Gorchymyn Diogelwch Tân gael eu hystyried fodd bynnag, a'u trosglwyddo i'r dylunydd / cleient er mwyn iddynt eu hystyried fel y gall diogelwch tân gael ei gynnwys yn llawn yn y cynllun.

Cofiwch bod y gofyniad i ymgynghori â'r awdurdodau tân ac achub hefyd yn berthnasol pan fydd perchnogion adeiladau yn cynnal gwaith ail-orchuddio ar adeiladau uchel, fel a ddisgrifir yn y Cylchlythyr dyddiedig 20 Gorffennaf 2017 ar Ail-orchuddio Adeiladau Uchel sydd i'w weld ar: <http://gov.wales/docs/desh/publications/170720-circular-re-cladding-of-tall-buildings-cy.pdf>

Gwybodaeth Diogelwch Tân

Mae Rheoliad 38 Rheoliadau Adeiladu 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n gwneud gwaith adeiladu ble y mae Gorchymyn Diogelwch Tân yn berthnasol roi gwybodaeth am ddiogelwch tân i'r 'person cyfrifol'⁵ cyn dyddiad cwblhau'r gwaith neu i'r preswylwyr symud i mewn i'r adeilad, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Mae Erthygl 4 y Gorchymyn Diogelwch Tân yn pennu y mathau o wybodaeth y gellid eu cynnwys a rhoddir rhagor o ganllawiau ar hyn yn Atodiad G *Dogfen Gymeradwy B, cyfrol 2 - Adeiladau nad ydynt yn Anheddau*

Mae'r wybodaeth am ddiogelwch tân a ddarparwyd o dan Rheoliad 38 i helpu'r person cyfrifol weithredu a sicrhau diogelwch tân o fewn safle sydd â phreswylwyr. Y nod yw sicrhau bod yr wybodaeth sy'n gysylltiedig â diogelwch adeilad yn cael ei chadw gyda'r adeilad, ac y gellir ei rhannu gyda phawb sydd â dyletswydd (ar y pryd neu wedi hynny) dros ddiogelwch parhaus a chynnal a chadw'r adeilad. Dylai'r rhai sy'n cynnal y gwaith adeiladu gofio y dylid rhoi'r wybodaeth i bawb y maent yn gwybod bod ganddynt ddyletswyddau o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân.

Er nad yn ddyletswydd penodol ar gyrff rheoli adeiladu, mae'r wybodaeth honno yn hollbwysig er mwyn trosglwyddo'n esmwyth rwymedigaethau personau cyfrifol o dan y gorchymyn diogelwch tân. Yn yr un modd caiff gyrff rheoli adeiladu eu hannog yn gryf i beidio â rhoi tystysgrifau terfynol neu cwblhau ar gyfer gwaith adeiladu tan iddynt sicrhau bod yr wybodaeth ar ddiogelwch tân (o ran y dyluniad, adeiledd, gwasanaethau, gosodiadau a ffitiadau ac ati) wedi'u darparu i'r person cyfrifol.

Ardystio Cydymffurfedd

Mae'r Adroddiad Interim yn nodi yr angen i ddatblygwyr adeiladau sicrhau bod adolygiad ffurfiol a phroses drosglwyddo cyn i unrhyw ran o adeilad newydd uchel gael ei feddiannu. Os nad yw adeilad wedi'i feddiannu cyn i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau, bydd y broses arferol o roi tystysgrif cwblhau neu dystysgrif terfynol yn berthnasol. Mae'r tystysgrifau hyn yn dangos bod y corff rheoli adeiladu yn fodlon bod y gwaith yn cydymffurfio â Rhan B y Rheoliadau Adeiladu a bod yr wybodaeth berthnasol ynghylch diogelwch tân wedi ei roi i'r person cyfrifol.

Pan fydd adeilad neu ran o adeilad i gael ei feddiannu cyn cwblhau, mae gan gyrff rheoli adeiladau ran i'w chwarae hefyd. Os mai awdurdod lleol yw'r corff rheoli adeiladu, mae'n

⁵Erthygl 3 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddiol (Diogelwch Tân) 2005.

rhaid i'r person sy'n gwneud y gwaith eu hysbysu o'r feddiannaeth bum niwrnod cyn iddo ddigwydd⁶ ac mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno tystysgrif cwblhau⁷ yn nodi ei fod yn ystyried eu bod wedi cydymffurfio â Rhan B a bod yr wybodaeth berthnasol ar ddiogelwch tân wedi ei roi iddynt.

Pan mai arolygydd cymeradwy yw'r corff rheoli adeiladu a bod yr adeilad neu ran ohono wedi'i feddiannu cyn iddo gael ei gwblhau, bydd y rhybudd terfynol yn dod i ben o fewn pedair/wyth wythnos⁸ os nad oes tystysgrif derfynol neu dystysgrif derfynol rannol wedi'i rhoi.⁹ Dylai arolygwyr cymeradwy felly atgoffa eu cleientiaid i roi rhybudd cynnar ble y mae bwriad i adeilad neu ran o adeilad gael ei feddiannu cyn cwblhau'r broses i sicrhau bod yr wybodaeth diogelwch tân perthnasol wedi'i roi i'r person cyfrifol.

Argymhellion interim ar gyfer y Llywodraeth

Mae Llywodraeth Cymru yn trafod gyda'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) dros weithredu argymhellion Adroddiad Interim Y Fonesig Judith y mae llywodraeth yn uniongyrchol gyfrifol am eu cyflawni.

Dros y misoedd nesaf, mae'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn bwriadu ymgynghori, dros Loegr, ar wneud dwy gyfres o newidiadau i Ddogfen Gymeradwy B. Bydd y cyntaf yn diwygio geiriad yr asesiad ar gyfer profi, sy'n cael ei adnabod hefyd fel astudiaethau bwrdd gwaith.

Bydd yr ail newid yn egluro'r ddogfen gyfan fel ei bod yn haws i'w defnyddio.

Mae newidiadau eisoes wedi'u gwneud i Ddogfen Gymeradwy B yng Nghymru fel rhan o gyflwyno systemau atal tanau preswyl. Byddwn yn edrych ar y gwelliannau pellach y gellid eu gwneud o ganlyniad i gynigion Lloegr y mae'r Weinyddiaeth yn bwriadu eu cyhoeddi yn yr haf.

Rydym hefyd yn edrych, yn unol ag argymhelliad y Fonesig Judith, ar ein dull ehangach o fynd i'r afael â'r canllawiau o fewn y Dogfennau Cymeradwy a byddwn yn holi barn ar sut y caiff y canllawiau eu defnyddio a sut y gellid ei wella yn y dyfodol.

Ymholiadau

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y llythyr hwn at enquiries.brconstruction@gov.wales

Yn gywir



François Samuel
Pennaeth Polisi Rheoliadau Adeiladu
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru

⁶Rheoliadau Adeiladu 2010, Rheoliad 16(5).

⁷Rheoliad 17A Rheoliadau Adeiladu 2010

⁸Rheoliad 17 Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010

⁹Adran 50 Deddf Adeiladu 1984 a Rheoliad 17(6) Rheoliad Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010